CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 2661 (Cy.257)

BWYD, CYMRU

Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/402) (Cy. 50) ("Gorchymyn 2002"), a oedd yn gwahardd mewnforio Coed Anis a Choed Anis Siapaneaidd i Gymru os o wlad y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd yr oeddent yn cael eu hanfon onid oedd amodau arbennig yn cael eu bodloni. Rhoddodd Gorchymyn 2002 ar waith Benderfyniad y Comisiwn 2002/75/EC sy'n pennu amodau arbennig ar fewnforio Coed Anis o drydydd gwledydd (OJ Rhif L33, 2.2.2002, t.31). Diddymwyd y Penderfyniad hwnnw gan Benderfyniad y Comisiwn 2003/602/EC (OJ Rhif L204, 13.8.2003, t.60).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 2661 (W.257)

FOOD, WALES

The Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) (Revocation) Order 2003

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order revokes the Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/402)(W.50)("the 2002 Order"), which prohibited the import of Star Anise and Japanese Star Anise into Wales where it was consigned from a country outside the European Community unless certain conditions were met. The 2002 Order implemented Commission Decision 2002/75/EC laying down special conditions on the import from third countries of Star Anise (OJ No. L33, 2.2.2002, p.31). That Decision was repealed by Commission Decision 2003/602/EC (OJ No. L204, 13.8.2003, p.60).

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 2661 (Cy.257)

BWYD, CYMRU

Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003

Wedi'i wneud	*14 Hydref 2003*
Yn dod i rym	*17 Hydref 2003*

Gan ei bod yn ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru nad yw mewnforio Coed Anis penodol a draddodir o wledydd nad ydynt yn Aelod-wladwriaethau'r Gymuned Ewropeaidd yn golygu bellach bod risg o niwed i iechyd ar fin digwydd;

Yn awr, gan hynny, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 13(1) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**a**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddo mewn perthynas â Chymru, ac ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003 a daw i rym ar 17 Hydref 2003 a bydd yn gymwys i Gymru'n unig.

Dirymu

2. Caiff Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) 2002(**b**) ei ddirymu.

(a) 1990 p.16; mae swyddogaethau o dan Ddeddf 1990 sy'n ymwneud â gorchmynion rheolaeth frys bellach yn arferadwy mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir ynghyd ag adran 40(3) o Ddeddf 1999. Mae paragraffau 11 a 21 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 yn diwygio adrannau 13 a 48 o Ddeddf 1990 yn y drefn honno

(b) O.S. 2002/402(Cy. 50).

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 2661 (W.257)

FOOD, WALES

The Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) (Revocation) Order 2003

Made	*14th October 2003*
Coming into force	*17th October 2003*

Whereas it appears to the National Assembly for Wales that the import of certain Star Anise consigned from countries which are not Member States of the European Community no longer involves imminent risk of injury to health;

Now therefore the National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 13(1) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**a**), and now exercisable by it in relation to Wales, having had regard in accordance with section 48(4A) of that Act to relevant advice given by the Food Standards Agency, makes the following Order:

Title, commencement and application

1. This Order may be cited as the Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) (Revocation) Order 2003, shall come into force on 17th October 2003 and shall apply to Wales only.

Revocation

2. The Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) Order 2002(**b**) is revoked.

(a) 1990 c.16; functions under the 1990 Act relating to emergency control orders are now exercisable in relation to Wales by the National Assembly for Wales by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) as read with section 40(3) of the 1999 Act. Paragraphs 11 and 21 of Schedule 5 to the 1999 Act amend respectively sections 13 and 48 of the 1990 Act.

(b) S.I. 2002/402(W.50).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

14 Hydref 2003

14th October 2003

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 2661 (Cy.257)

BWYD, CYMRU

Gorchymyn Bwyd (Coed Anis o Drydydd Gwledydd) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Dirymu) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 2661 (W.257)

FOOD, WALES

The Food (Star Anise from Third Countries) (Emergency Control) (Wales) (Revocation) Order 2003

©℗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090796-5

9 780110 907963

£1.75

W183/10/03 ON